



## Calendr Ysgol, Cyllideb Amser dan Gyfarwyddyd ac Amser a Enillwyd

Cyn diwedd y tymor yma, dylai Cynrychiolwyr NASUWT gynnal trafodaethau gyda'u penaethiaid ynglŷn â dyrannu amser dan gyfarwyddyd ar galendr yr ysgol, ac am y gyllideb amser dan gyfarwyddyd ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf.

Mae Cyfarwyddyd 10 yng Nghyfarwyddiadau NASUWT am Weithredu Cenedlaethol yn nodi:

### Cyfarwyddyd 10

*Cyfarwyddir aelodau i beidio mynd i unrhyw gyfarfodydd y tu allan i amseroedd sesiynau ysgol nad ydynt o fewn amser dan gyfarwyddyd a lle nad oes unrhyw galendr amser dan gyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi sydd wedi'i gytuno gyda NASUWT.*

I weld yr holl Gyfarwyddiadau am Weithredu, ewch i: [www.nasuwat.org.uk/IndustrialActionWales](http://www.nasuwat.org.uk/IndustrialActionWales).

Dylai Cynrychiolwyr NASUWT ddweud yn glir wrth benaethiaid y bydd aelodau'n dilyn cyfarwyddyd NASUWT am weithredu cyfreithlon os na ellir dod i gytundeb ar galendr amser dan gyfarwyddyd ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf.

Defnyddiwch y canllawiau isod i gefnogi eich trafodaethau gyda'r pennaeth ynglŷn â cheisio cytuno ar gyllideb amser dan gyfarwyddyd a chalendr o gyfarfodydd.

### Cyllideb Amser dan Gyfarwyddyd

Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) yn ei gwneud hi'n ofynnol i athrawon llawn amser fod ar gael i weithio am 195 o ddiwrnodau mewn blwyddyn ysgol; o'r rhain, mae 190 yn ddiwrnodau y gellir disgwyl iddyn nhw addysgu disgyblion yn ogystal â chyflawni dyletswyddau eraill fel y maent wedi'u disgrifio'n llawn yn y STPCD, a phum diwrnod pan fo modd gofyn i athrawon wneud dyletswyddau eraill (gelwir y rhain yn ddiwrnodau athrawon / diwrnodau HMS).

Efallai y bydd gofyn i'r athrawon addysgu a chyflawni dyletswyddau eraill am 1,265 o oriau (amser dan gyfarwyddyd) bob blwyddyn. Dylid dyrannu'r oriau hyn yn rhesymol drwy gydol y diwrnodau hynny yn y flwyddyn ysgol pan fo'n ofynnol iddynt weithio.

Felly, dylai pob athro/athrawes unigol nad ydynt yn cael eu talu ar y raddfa gyflog arweinwyr dderbyn cyllideb amser sy'n esbonio sut y bydd y 1,265 awr o amser dan gyfarwyddyd, sydd ar gael ar gyfer cyfarwyddyd rhesymol gan y pennaeth, yn cael eu dyrannu dros y 195 o ddiwrnodau pan fo gofyn i athrawon fod ar gael i weithio.

Mae sesiynau ysgol yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r oriau dan gyfarwyddyd. O fewn yr amser addysgu ar yr amserlen yn ystod y sesiynau hynny, dylai athrawon hefyd gael amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) ac amser arwain a rheoli.

### Amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)

Dylai'r holl athrawon gael lleiafswm gwarantedig o amser CPA sy'n cyfri am 10% o'r amserlen, wedi'i farcio ar yr amserlen. Mae hyn yn cyfri tuag at gyfanswm yr amser dan gyfarwyddyd. Ni ellir defnyddio amser CPA ar gyfer unrhyw weithgaredd arall, gan gynnwys gwaith cyflenwi. Dylid marcio amser CPA yn glir ar amserlen pob athro/athrawes.

### Amser arwain a rheoli

Yn ogystal ag amser CPA, mae gan athrawon sydd â chyfrifoldebau yn ychwanegol at rai cyffredinol athrawon dosbarth, p'un a ydynt yn cael eu talu neu beidio, hawl i amser arwain a rheoli o fewn sesiynau ysgol.

Mae'r STPCD yn nodi bod: *'hawl gan athrawon sydd â chyfrifoldebau arwain neu reoli, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i gyfran resymol o amser yn ystod sesiynau ysgol ar gyfer cyflawni'r cyfrifoldebau hynny'*.

Er na ddiffiniwyd y gyfran o amser yn y STPCD, ni fyddai'n rhesymol i'r amser fod mewn blociau o lai na 30 munud.

### 'Amser clustogi'

Dylid cynnwys amser a elwir yn 'amser clustogi' ar ddechrau a diwedd sesiynau ysgol yn yr amser dan gyfarwyddyd os gofynnir i athrawon fod ar gael yn ystod yr amser hwnnw.

Dylid trafod a chytuno ar y gyllideb amser gyda'r athro/athrawes.

### Calendrau

Dylid cyhoeddi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academiaidd cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd.

Dylid pennu'r dyddiadau hynny yn yr wythnos pan gynhelir cyfarfodydd ar ddiwedd sesiynau ysgol fel bod athrawon yn gallu cynllunio eu gweithgareddau personol. Mae hyn yn hanfodol i athrawon sydd â chyfrifoldebau gofalu.

*dros y ddalen*

Unwaith y byddent wedi'u cyhoeddi, ni ddylid newid y dyddiau a'r dyddiadau a bennwyd, heblaw bod amgylchiadau eithriadol yn codi a, phryd hynny, dim ond mewn ymgynghoriad â'r athrawon, cynrychiolwyr NASUWT a chynrychiolwyr undebau eraill.

### **Cyfarfodydd**

Mae NASUWT yn argymhell na ddylai athrawon nad ydynt ar y raddfa gyflog arweinyddiaeth fynd i fwy nag un cyfarfod staff bob wythnos y tu allan i amseroedd sesiwn y disgyblion, a dim ond pan nad oes modd cynnal math arall o gyfathrebu yn lle'r cyfarfod y dylid cynnal y cyfarfod hwn.

Dylai'r rheiny sydd ar y raddfa gyflog arweinyddiaeth geisio cytuno ar gyfyngiad ar y nifer o gyfarfodydd y dylent eu mynychu bob wythnos y tu allan i amseroedd sesiynau ysgol.

Ni ddylid disgwyl i athrawon addysgu unrhyw ddsbarthiadau atgyfnerthu, adolygu neu ymyrraeth y tu allan i amseroedd sesiynau ysgol.

Mae'r hawl cytundebol yn y STPCD i gael cydbwysedd boddhaol rhwng bywyd a gwaith yn berthnasol i bob athro/athrawes.

Ni ddylai cyfarfodydd bara'n hirach nag awr fel arfer a dylai bod ganddynt agendâu wedi'u cyhoeddi, dylent gael eu cadeirio'n effeithiol a dylent fod â chanlyniadau eglur.

Ni ddylai athrawon ddarparu 'cefnogaeth ysgrifenyddol' mewn cyfarfodydd drwy gymryd cofnodion ffurfiol neu nodiadau gair am air.

Ni ellir cyfarwyddo athrawon i fynd i gyfarfodydd yn ystod eu hamser cinio. Felly, ni ddylent gael eu hannog i fynychu neu wirfoddoli i wneud hynny. Ni ddylid trefnu cyfarfodydd yn ystod yr amser cinio.

### **Ymgynghoriadau â rhieni**

Mae NASUWT yn argymhell y dylai athrawon fynychu un ymgynghoriad yn unig â rhieni bob blwyddyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Dylid cyfiri'r cyfarfodydd yma fel amser dan gyfarwyddyd a dylid eu pennu yn y calendr o gyfarfodydd.

Mewn wythnos lle mae cyfarfod ymgynghori â'r rhieni wedi'i amserlennu, ni ddylid rhoi unrhyw gyfarfod arall y tu allan i sesiynau ysgol ar y calendr.

### **Nosweithiau agored**

Nid oes gofyn i athrawon fynychu nosweithiau agored. Fodd bynnag, os byddent yn cytuno i fynd, dylai'r cyfarfodydd yma gyfri yn erbyn amser dan gyfarwyddyd ac yn erbyn y cyfanswm cyfarfodydd wythnosol.

## **Amser a enillwyd**

Yn ystod y flwyddyn, gellir rhyddhau athrawon o rai o'u hymrwymiaadau addysgu ar yr amserlen oherwydd bod disgyblion ar gyfnod astudio neu wyliau arholiad. Gelwir amser o'r fath yn amser a enillwyd.

Mae Cyfarwyddyd 21 NASUWT am Weithredu Cenedlaethol yn nodi na ddylai athrawon wneud unrhyw weithgareddau yn ystod amser a enillwyd nad ydynt yn y rhestr isod; roedd y rhain wedi'u rhestru cyn hyn yn Atodiad 4 y STPCD:

- datblygu/adolygu deunyddiau cwricwlwm adrannol/pwnc, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi a pholisïau wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Gall hyn gynnwys dynodi deunyddiau priodol sydd gan aelodau i'w defnyddio gan staff cyflenwi a/neu oruchwylwyr cyflenwi;
- rhoi cymorth i gydweithwyr mewn gweithgareddau addysgu tîm priodol sydd wedi'u cynllunio;
- cymryd grwpiau o ddisgyblion i roi cymorth dysgu ychwanegol iddynt;
- cefnogi disgyblion dewisol gyda gwaith cwrs;
- ymgymryd â gweithgareddau wedi'u cynllunio gyda disgyblion sy'n symud grŵp blwyddyn neu'n symud o ysgolion cynradd;
- pan fydd gan yr ysgol bolisi i ryddhau'r holl staff ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) yn ystod sesiynau ysgol, gellir defnyddio amser a enillwyd.

Er mwyn i'r ysgol allu cyfarwyddo athrawon i wneud unrhyw weithgareddau yn ystod amser a enillwyd, mae'n rhaid i'r holl amser a enillwyd gael ei gynnwys yn y gyllideb amser dan gyfarwyddyd o 1,265 awr sydd ar gael i'r ysgol.

Os bydd yr ysgol yn ceisio cyfarwyddo athrawon i wneud unrhyw weithgareddau nad ydynt yn y rhestr uchod, gan gynnwys gwaith cyflenwi neu ailddyrrannu dosbarthiadau, dylech gysylltu â NASUWT i gael cyngor a chefnogaeth.

